



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2016-2020



Rhagair

Bioamrywiaeth – sef yr amrywiaeth o bob peth byw – yw sail y prosesau rydym yn dibynnu arnynt i fyw: aer glân, dŵr glân, lliniaru llifogydd, ffurfio pridd, cylchu carbon a maetholion a chael gwared ar lygredd. Mae bioamrywiaeth yn rhoi i ni y tirweddau rydym yn eu hanwylo a chyfleoedd hamdden di-ben-draw - pob un ohonynt yn cyfrannu at ein hiechyd a'n lles.

Mae gan Brifysgol Abertawe gyfoeth o gynefinoedd ledled ei dau gampws, o draeth a thwyni tywod y Bae i goetir a gerddi Singleton. Mae'r cynefinoedd hyn yn gartref i amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt ac yn adnodd gwyb i'r Brifysgol ddysgu sgiliau hanfodol i'r genhedlaeth nesaf o ecolegwyr a chynnig cyfleoedd iddynt wneud gwaith ymchwil neu gynnig amgylchedd iach ac ymlaciol i staff, myfyrwyr a thrigolion lleol gael eu cefn atynt. Nid yw'r campysau yn bodoli ar wahân – maent yn ffurfio rhan bwysig o amgylchedd rhanbarth Bae Abertawe, gan gysylltu â'r byd ehangach a gweithredu fel coridorau i fywyd gwyllt.

Mae newid yn yr hinsawdd yn codi nifer fawr o broblemau a bydd sicrhau bod yr amgylchedd naturiol mor iach â phosibl yn sicrhau bod gan rywogaethau y siawns gorau posibl o addasu. Mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd, drwy waith ymchwil a monitro, a'u rheoli'n briodol. Mae'n rhaid nodi a rheoli cynefinoedd allweddol, bydd angen rheoli rhywogaethau goresgynnol, darparu lle i blanhigion ac anifeiliaid ffynnu a, lle mae datblygiadau yn digwydd, bydd angen gwaith plannu sensitif er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion bywyd gwyllt.

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yn esbonio sut y bydd y Brifysgol yn cyflawni ei dyletswyddau deddfwriaethol, ond yn fwy na hyn, mae'n ddogfen fyw sydd i'w defnyddio a'i diweddarau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod ein campysau yn parhau i fod yn gartref i fywyd gwyllt yn ogystal â phobl.

Gweithgor Bioamrywiaeth Prifysgol Abertawe, Gorffennaf 2016



Cynnwys

Rhagair	2
1) Cyflwyniad	4
2) Cynefinoedd a Rhywogaethau sy'n Bwysig o safbwynt Cadwraeth ym Mhrifysgol Abertawe	7
3) Gwella Bioamrywiaeth ar y Campysau (gan gynnwys amcanion)	15
4) Cynllun Gweithredu	17
4.1 Rheoli a chofnodi	17
4.2 Arolygu, monitro a rheoli data	18
4.3 Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau	19
4.4 Codi ymwybyddiaeth ac addysg	20

Tabl 1. Cynefinoedd sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth ar Gampws Parc Singleton

Tabl 2. Rhywogaethau sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth ar Gampws Parc Singleton

Tabl 3. Cynefinoedd sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth ar Gampws y Bae

Atodiad 1. Rhestrau o rywogaethau presennol ar gyfer Campws Parc Singleton



1) Cyflwyniad

Mae Strategaeth Cynaliadwyedd y Brifysgol, sef *Sustainability – Our Approach 2016-2020*, yn cydnabod bod bioamrywiaeth yn un o'r meysydd gwaith craidd ac yn cynnwys y nod i warchod a gwella bioamrywiaeth campysau'r brifysgol a chyfleu eu gwerth fel coridorau gwyrdd pwysig, gyda'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) yn sail i'r holl weithgarwch rheoli cynefinoedd a rhywogaethau ar y campysau. Mae ein System Rheoli Amgylcheddol (ISO 14001) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol fonitro'r CGB a chyflwyno adroddiad arno bob blwyddyn.

Hwn yw ail Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Prifysgol Abertawe, sy'n diweddarau'r cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2012 (pan nad oedd gan y Brifysgol ond un campws, sef Parc Singleton). Nod y cynllun hwn yw adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol a sefydlu system i reoli'r campysau er mwyn sicrhau y caiff cynefinoedd a rhywogaethau allweddol eu gwarchod, y caiff camau eu cymryd i gynyddu gwerth cynefinoedd eraill o safbwynt bywyd gwyllt ac y bydd unrhyw waith a wneir i ddatblygu ystâd y Brifysgol yn gwella bioamrywiaeth yn gyffredinol. Caiff cyfleoedd i ymgysylltu a dehongli eu datblygu er mwyn meithrin dealltwriaeth a gwella mwynhad myfyrwyr, staff a'r cyhoedd o'r bywyd gwyllt ar ein campysau yn gyffredinol.

Mae'n nodi cyd-destun gweithgarwch cynllunio bioamrywiaeth, y rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd o bwys arbennig o safbwynt cadwraeth ar ddau gampws y Brifysgol, yr hyn a gyflawnwyd gan iteriad cyntaf y CGB a chyfleoedd i gynyddu gwerth y Brifysgol o safbwynt bywyd gwyllt. Mae'r adran olaf yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau penodol a gymerir dros y pedair blynedd nesaf i warchod, gwella a hybu bioamrywiaeth y Brifysgol.

Bioamrywiaeth, CGB y DU a Chynllun Adfer Natur Cymru

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn diffinio bioamrywiaeth fel yr amrywioldeb ymhlith organeddau byw o bob tarddle gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ecosystemau'r tir a'r môr ac ecosystemau dyfrol eraill a'r cymhlygion ecolegol y maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau a rhwng rhywogaethau, ac amrywiaeth ecosystemau; Mae bioamrywiaeth yn sail i amgylchedd naturiol iach. Mae'r byd naturiol, ei fioamrywiaeth a'r ecosystemau sy'n rhan ohono yn hanfodol i les pobl yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r manteision niferus a geir wrth gynnal gweithrediad ecosystemau. Mae'n cydnabod bod bioamrywiaeth wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i weithgarwch pobl; Nododd yr Adroddiad diweddaraf ar Gyflwr yr Amgylchedd Ewropeaidd fod gan 60% o rywogaethau a aseswyd a 77% o gynefinoedd statws cadwraeth anffafriol o hyd.

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (CGB y DU) yn 1994 fel ymateb Llywodraeth y DU i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Galwodd y CGB am ddatblygu a gorfodi strategaethau cenedlaethol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig er mwyn nodi, cadw a gwarchod amrywiaeth Fiolegol sy'n bodoli eisoes a'i gwella lle y bo'n bosibl. Mae cynllun y DU yn nodi rhaglen ar gyfer cadw bioamrywiaeth y DU a llunio cyfres o gynlluniau gweithredu er mwyn helpu cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn y DU.

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, yn nodi sut y bydd Cymru yn cyflawni ymrwymadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol er mwyn atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac wedyn wrthdroi'r dirywiad hwnnw. Mae adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn nodi'r rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwys pennaf yng Nghymru. Mae'r adran hon wrthi'n cael ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf yr Amgylchedd).

Bioamrywiaeth ar y campysau ac ardal ehangach Bae Abertawe

Lleolir Prifysgol Abertawe o fewn dwy ardal awdurdod lleol, gyda Champws Singleton wedi'i leoli yn Ninas a Sir Abertawe a Champws y Bae ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r ddau awdurdod wedi llunio cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol ar gyfer eu hardaloedd ac mae'r Brifysgol yn rhan o'r bartneriaeth sy'n eu cynnal. Mae'r rhanbarth yn gartref i gyfoeth o fywyd gwylt – ceir bron 70% o'r cynefinoedd ac 20% o'r rhywogaethau y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yn y DU yn Ninas a Sir Abertawe a nod y cynllun hwn yw ategu'r gwaith cadwraeth sy'n cael ei wneud yn yr ardal ehangach.

Er bod dau gampws y Brifysgol mewn lleoliadau trefol mae ganddynt lawer o fannau agored ac maent yn darparu cysylltedd gwerthfawr yn ogystal ag adnodd bioamrywiaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Adeiladwyd Campws Parc Singleton ar yr hen system twyni tywod a arferai amgylchynu Bae Abertawe ac mae'n ffurfio plagioclimacs o gynefinoedd gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd lled-naturiol, megis coetir, gwrychoedd, glaswelltir a chynefinoedd dyfrol sy'n cynnal planhigion brodorol, adeiladau a ddefnyddir gan adar sy'n nythu ac ystumod, ynghyd â gwelyau blodau addurnol, prysglwyni a glaswelltir amwynder. Defnyddir y cynefinoedd hyn gan amrywiaeth eang o fywyd gwylt, gan gynnwys ystumod, dyfrgwn, ffwlbartiaid, llwynogod ac amrywiaeth o famaliaid bach, amffibiaid, trychfilod ac adar. At hynny, maent yn cynnal llawer o blanhigion brodorol, ynghyd â nifer o rywogaethau o ffyngau a chennau. Mae Dôl yr Abaty ('Abbey Meadow') yn ardal o laswelltir wedi'i led wella sy'n cynnwys pwll dros dro a ddefnyddir gan amffibiaid. Arferai'r Gerddi Botaneg weithredu fel corff cyflenwi i Erddi Kew ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o rywogaethau blodau anffodorol, y mae rhai ohonynt yn brin iawn. Ceir nifer o goed hynafol ar y campws, ac mae'r lleoliad, ger Dyffryn Clun, glan y môr a Pharc Singleton, yn golygu ei fod yn rhan hanfodol o gysylltedd ecolegol y ddinas.

Agorodd Campws y Bae yn 2015 ac fe'i hadeiladwyd ar safle tir llwyd, a arferai fod yn ddepo storio olew i BP. Mae'n ffinio â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Twyni Crymlyn (SoDdGA) i'r dwyrain ac fe'i gwahenir oddi wrth y traeth tywod i'r de gan lain gul o dwyn tywod. Mae'r lleiniau ymyl ffordd ar hyd Ffordd Fabian yn cynnwys amrywiaeth fawr iawn o rywogaethau a defnyddiwyd gwair a gasglwyd o'r lleiniau ymyl ffordd hyn i hau hadau mewn ardaloedd yng ngogledd a dwyrain y campws. Ar wahân i'r traeth a'r twyni tywod i'r de nid oes unrhyw gynefinoedd naturiol, ond mae'r adeiladau a'r mannau agored yn cynnig cyfleoedd sylweddol i greu ardaloedd newydd i fywyd gwylt.

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth

Mae Ddeddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyhyd ag y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio hyrwyddo cydnherthedd ecosystemau, gan gynnwys cyflwr, amrywiaeth, maint, cysylltedd a'r gallu i addasu. Mae hyn yn disodli ac yn atgyfnerthu'r ddyletswydd bioamrywiaeth wreiddiol o dan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a bydd o fudd i fyfyrwyr, staff a'r boblogaeth ehangach drwy helpu i wneud y canlynol:

- cyfrannu at ein hiechyd a'n lles corfforol a meddyliol
- chwarae rôl bwysig o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- rheoleiddio'r hinsawdd leol, er enghraifft tymheredd, cysgod
- atal a dadelfennu llygredd aer, dŵr a phridd
- lleihau briglifogydd
- cynnig cyfleoedd i'r gymuned gyfranogi a gwirfoddoli

Mae SoDdGA Twyni Crymlyn yn cynnwys 244ha o gynefinoedd twyni tywod, morfa heli a gwaddod rhynglanwol a daeth yn rhan o ystad y Brifysgol yn 2015. Er bod y safle yn cynnwys rhan sylweddol o fioamrywiaeth y Brifysgol, mae ganddo gyfundrefn reoli ar wahân, gyda'i bwyllgor rheoli a'i gynllun rheoli ei hun. Nid yw wedi'i gynnwys yn y CGB hwn, ac eithrio er mwyn sicrhau na fydd gweithgareddau a gynhelir ar y campws yn effeithio ar y gwaith o warchod y SoDdGA ac y byddant, lle y bo'n bosibl, yn ei ategu.

Y Gweithgor Bioamrywiaeth

Sefydlwyd gweithgor trawsadrannol, a gadeirir gan y Swyddog Bioamrywiaeth, o dan iteriad cyntaf y CGB, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Biowyddorau, Ystadau (Tiroedd, Prosiectau, Cynnal a Chadw a Chynaliadwyedd), Preswylfeydd ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Gweithgor Bioamrywiaeth yn cyfarfod bob tymor er mwyn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r CGB a'i roi ar waith, gan gynnwys llunio cynllun gweithredu blynyddol.



2) Cynefinoedd a Rhywogaethau sy'n Bwysig o Safbwynt Cadwraeth ym Mhrifysgol Abertawe

Mae adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd yn rhestru'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd o bwys arbennig o safbwynt cadwraeth yng Nghymru, gan ddisodli'r rhestr yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a chaiff ei diweddaru yn y dyfodol agos gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhestr hon yn sail i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yma, ond mae rhai eraill hefyd a restrir naill ai am eu bod yn bwysig yn lleol neu am eu bod yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig.

Caiff mapiau cynefinoedd manwl o'r campysau eu llunio yn ystod 2016 a chânt eu cynnwys fel atodiad i'r CGB. Yn ogystal â nodi lleoliad ardaloedd allweddol sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth, byddant yn ein galluogi i gyfrifo maint pob cynefin, gan bennu'r llinell sylfaen ar gyfer mesur perfformiad yn y dyfodol.

Nid oes gennym restrau llawn o'r holl grwpiau o blanhigion ac anifeiliaid sy'n defnyddio'r campws, ac ar gyfer y rheini sy'n ymddangos ar ein rhestrau, yn aml ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am boblogaethau a'r defnydd a wnânt o'r campws – dylid nodi cyfleoedd i wella ein gwybodaeth am yr holl fywyd gwyllt ar y campws a manteisio arnynt. Pan mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd gennym ni ddylai hyn ein hatal rhag cymryd camau cadarnhaol i wella cynefinoedd – bydd arferion rheoli da megis gadael ardaloedd garw, lleihau'r defnydd o blaleiddiaid, gadael i flodau gwyllt osod hadau a rheoli rhywogaethau goresgynnol oll yn helpu i gynyddu gwerth y campysau o safbwynt bioamrywiaeth. Mae'r tablau isod yn nodi'r blaenoriaethau bioamrywiaeth hysbys er mwyn helpu i lywio'r gwaith o reoli'r campysau; drwy wneud rhagor o waith arolygu byddwn yn cynyddu ein sail wybodaeth, a fydd yn cynnig cyfle i wella gweithgarwch rheoli ymhellach.



Tabl 1. Cynefinoedd sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth ar Gampws Parc Singleton

Math o gynefin Cam 1	A yw'n gynefin â blaenoriaeth a restrir yn A7?	Rhesymau eraill dros ei gynnwys yn y CGB	Lleoliad garw	Targed cadwraeth
A1.3.2, coetir cymysg a blannwyd	Ydy - coetir collddail cymysg iseldirol		Y Gerddi Botaneg, ymyl ddeheuol y campws	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd, gwarchod coed hynafol, cadw ardaloedd garw, heb eu trin, prysglog
A3.3 parcdir / coed gwasgarog	Ydy - porfa mewn coetir a pharcdir		Lawnt yr Abaty, dôl yr Ardd Fotaneg	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd, gwarchod coed hynafol
B2.2 glaswelltir niwtral wedi'i led wella	Ydy - dolydd iseldir		Dôl y Gerddi Botaneg	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd
B5 glaswelltir corslyd	Ydy - dolydd iseldir		Dôl yr Abaty	Cynyddu maint y cynefin, gwella ei ansawdd
G1.2 pyllau o waith dyn	Ydy - pyllau		Y Gerddi Botaneg / Adeilad Grove	Diogelu ansawdd y dŵr, cynnal maint y cynefin, nodi ardaloedd ar gyfer pyllau newydd
G2.2 nant	Nac ydy	Mae'n darparu cysylltedd a chynefin pwysig i amrywiaeth eang o anifeiliaid	Y Gerddi Botaneg	Diogelu ansawdd y dŵr
J1.2 glaswelltir amwynder	Nac ydy	Mae'n hwyluso system ddraenio gynaliadwy, yn darparu cynefin i infertebratau, adar a mamaliaid bach, potensial da ar gyfer gwella	Lawnt yr Abaty, yn gyffredin iawn ledled y campws	Cynnal maint y glaswelltir agored, gwella ei ansawdd, nodi ardaloedd i'w rheoli fel dolydd blodeuog
J1.3 Cynefin a gaiff ei drin - dros dro / lluosflwydd byr	Nac ydy	Mae gwelyau blodau yn bwysig i drychfilod sy'n peillio, yn darparu cynefin i infertebratau eraill, yn hwyluso systemau draenio cynaliadwy ac yn cynnig potensial da ar gyfer gwella	Y Gerddi Botaneg, wedi'u gwasgaru'n fwy cyffredinol o amgylch y campws	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd ar gyfer trychfilod sy'n peillio, defnyddio blodau brodorol lle y bo'n bosibl
J1.4 Cynefin a gaiff ei drin - prysgwydd a gyflwynwyd	Nac ydy	Mae prysglwyni yn bwysig i drychfilod sy'n peillio, yn darparu cynefin i infertebratau eraill, yn hwyluso systemau draenio cynaliadwy ac yn cynnig potensial da ar gyfer gwella	Y Gerddi Botaneg, wedi'u gwasgaru'n fwy cyffredinol o amgylch y	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd ar gyfer trychfilod sy'n peillio, defnyddio blodau brodorol lle y bo'n bosibl a chynnal ardaloedd garw, heb eu trin er

			campws	mwyn cynyddu nifer yr adar, mamaliaid ac infertebratau
J2.1.2 Gwrychoedd lle na cheir llawer o rywogaethau	Ydy - gwrychoedd		Y Gerddi Botaneg	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd
J3.6 Adeiladau	Nac ydy	Mae'n darparu cynefin nythu i adar ac ystlumod a restrir yn A7	O amgylch y campws	Mae'n gwarchod adar sy'n nythu ac ystlumod, y nod yw cynyddu poblogaeth a dosbarthiad rhywogaethau sy'n defnyddio adeiladau lle y bo'n bosibl gan ddefnyddio blychau nythu artiffisial. Sicrhau bod unrhyw waith a wneir i ddatblygu ystâd y Brifysgol yn sicrhau enillion net o ran bioamrywiaeth.

Tabl 2. Rhywogaethau sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth ar Gampws Parc Singleton

Enw cyffredin	Enw gwyddonol	Rhywogaeth â blaenoriaeth a restrir yn A7?	Nodiadau	Targed cadwraeth
Mamaliaid				
Dyfrgi	<i>Lutra lutra</i>	✓	Ymwelydd achlysurol	Cofnodi dyfrgwn a welir, gwella cynefinoedd dŵr croyw
Ffwlbart	<i>Mustela putorius</i>	✓	Ymwelydd achlysurol	Cofnodi ffwlbartiaid a welir, gwarchod cynefinoedd addas, cynnal poblogaeth o famaliaid bach
Llwynog coch	<i>Vulpes vulpes</i>		Rhywogaeth breswyl	Ei chynnal fel rhywogaeth fridio
Draenog	<i>Erinaceus europaeus</i>	✓	Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Corystlum cyffredin	<i>Pipistrellus pipistrellus</i>	✓	Mae'n clwydo yn yr Abaty	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Corystlum soprano	<i>Pipistrellus pygmaeus</i>	✓	Mae'n clwydo yn yr Abaty	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Ystlum mawr	<i>Nyctalus noctula</i>	✓	Mae'n clwydo yn yr Abaty	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Llygoden y maes	<i>Apodemus sylvaticus</i>		Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Llygoden goch	<i>Myodes glareolus</i>		Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Chwistlen	<i>Sorex araneus</i>		Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Y chwistlen leiaf	<i>Sorex minutus</i>		Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Chwistlen ddŵr	<i>Neomys fodiens</i>		Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Adar				
Gwylan y penwaig	<i>Larus argentatus</i>	✓	Rhywogaeth breswyl	Cynnal y boblogaeth
Aderyn y to	<i>Passer domesticus</i>	✓	Rhywogaeth breswyl	Cynyddu'r boblogaeth fridio drwy ddarparu blychau nythu
Llwyd y berth	<i>Prunella modularis</i>	✓	Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Drudwen	<i>Sturnus vulgaris</i>	✓	Rhywogaeth breswyl	Sefydlu / Cynyddu'r boblogaeth fridio drwy ddarparu blychau nythu
Y fronfraith	<i>Turdus philomelos</i>	✓	Rhywogaeth breswyl	Cynnal / cynyddu'r boblogaeth
Gwennol	<i>Apus apus</i>		Yn ymweld yn ystod yr haf, rhywogaeth fridio o bosibl,	Sefydlu / Cynyddu'r boblogaeth fridio drwy ddarparu blychau nythu

			gostyngiad o 40% yn nifer y gwenoliaid yn y DU yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf	
Hebog tramor	<i>Falco peregrinus</i>	✓	Ymwelydd rheolaidd	Gwarchod clwydfannau, ceisio ei sefydlu fel rhywogaeth fridio drwy ddarparu blychau nythu
Crynnodiad o adar bridio			Gweler atodiad 1 am restrau o rywogaethau	Ceisio cynnal a, lle y bo'n bosibl, gynyddu nifer y rhywogaethau sy'n bridio ar y campws
Crynnodiad o adar sy'n ymweld â'r campws yn rheolaidd			Gweler atodiad 1 am restrau o rywogaethau	Ceisio cynnal a, lle y bo'n bosibl, gynyddu nifer y rhywogaethau sy'n ymweld â'r campws yn rheolaidd i fwyta neu glwydo
Amffibiaid				
Llyffant du	<i>Bufo bufo</i>	✓	Ymwelydd rheolaidd nad yw'n bridio	Ei sefydlu fel rhywogaeth fridio drwy greu cynefin
Broga	<i>Rana temporaria</i>		Rhywogaeth breswyl (brin)	Cynyddu'r boblogaeth drwy greu / gwella cynefin
Madfall ddŵr balfog	<i>Lissotriton helveticus</i>		Rhywogaeth breswyl (brin)	Cynyddu'r boblogaeth drwy greu / gwella cynefin
Pysgod				
Llysywen Ewrop	<i>Anguilla anguilla</i>	✓	Mewn perygl difrifol, fe'i ceir mewn pyllau a nentydd	Gwarchod cynefin a sicrhau y caiff gwaith rheoli cynefinoedd ei wneud mewn modd cydymdeimladol
Gwyfynnod				
Bidog y tafol	<i>Acronicta rumicis</i>	✓		?
Ffenics bach	<i>Ecliptopera silaceata</i>	✓		?
Carpiog Awst	<i>Ennomos quercinaria</i>	✓		?
Dart gwynresog	<i>Euxoa tritici</i>	✓		?
Gwyfyn emrallt bach	<i>Hemistola chrysoprasaria</i>	✓		?
Llwyd llyfn	<i>Hoplodrina blanda</i>	✓		?
Gwyfyn dotiog	<i>Melanchra persicariae</i>	✓		?
Ermin llwydfelyn	<i>Spilosoma luteum</i>	✓		?

Gweler atodiad 1 am restr lawn o'r rhywogaethau				Ceisio cofnodi'r gwyfynod a gwella gwybodaeth amdanynt
Grwpiau eraill				
Coed hynafol				Cofnodwch y coed hynafol allweddol ar y campws a cheisiwch sicrhau y cânt eu gwarchod a'u rheoli mewn modd cydymdeimladol
Gweler atodiad 1 am restrau llawn o rywogaethau				

Tabl 3. Cynefinoedd sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth ar Gampws y Bae

Math o gynefin Cam 1	Cynefin â blaenoriaeth a restrir yn A7?	Rhesymau eraill dros ei gynnwys yn y CGB	Lleoliad garw	Targed cadwraeth
A1.3.2, coetir cymysg a blannwyd	Ydy - coetir collddail cymysg iseldirol		Coed ifanc a blannwyd fel lleiniau o goetir ar hyd ffiniau gogleddol a dwyreiniol y campws	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd, gwarchod coed hynafol, cadw ardaloedd garw, heb eu trin, prysglog
A3.3 parcdir / coed gwasgarog	Porfa mewn coetir a pharcdir		Coed ifanc a blannwyd fel coed unigol gwasgarog a grwpiau o goed ar laswelltir ac fel stryd o goed o amgylch y campws	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd, gwarchod coed hynafol
H1.1 llaid rhynglanwol a thywod	Ydy - gwastadeddau llaid rhynglanwol		I'r de o'r campws	Cynnal maint y cynefin a rheoli tarfu arno
H6.8 twyn tywod agored	Ydy - twyni tywod arfordirol		Ymyl ddeheuol y campws	Cynnal maint y cynefin, rheoli rhywogaethau goresgynnol, monitro
J1.2 glaswelltir amwynder	Nac ydy	Mae'n hwyluso system ddraenio gynaliadwy, yn darparu cynefin i infertebratau, adar a mamaliaid bach, potensial da ar gyfer gwella	Yr ymyl ogleddol a ledled y campws	Cynnal maint y glaswelltir agored, gwella ei ansawdd, nodi ardaloedd i'w rheoli fel dolydd blodeuog. Mae'r glaswelltir ar hyd y ffiniau gogleddol a dwyreiniol a maes parcio'r SoDdGA yn cynnwys llawer iawn o rywogaethau, a heuwyd gan ddefnyddio gwair a gasglwyd yn lleol - defnyddio cyfundrefn torri gwair briodol.

J1.4 Cynefin a gaiff ei drin - prysgwydd a gyflwynwyd	Nac ydy	Mae prysglwyni yn bwysig i drychfilod sy'n peillio, yn darparu cynefin i infertebratau eraill, yn hwyluso systemau draenio cynaliadwy ac yn cynnig potensial da ar gyfer gwella	Wedi'u plannu o amgylch y campws, o amgylch adeiladau fel arfer	Cynnal maint y cynefin, gwella ei ansawdd ar gyfer trychfilod sy'n peillio, defnyddio blodau brodorol lle y bo'n bosibl a chynnal ardaloedd garw, heb eu trin er mwyn cynyddu nifer yr adar, mamaliaid ac infertebratau
J3.6 adeiladau	Nac ydy	Gall gynnig cynefin nythu i adar ac ystlumod a restrir yn A7	O amgylch y campws	Mae'n gwarchod adar sy'n nythu ac ystlumod, y nod yw cynyddu poblogaeth a dosbarthiad rhywogaethau sy'n defnyddio adeiladau lle y bo'n bosibl gan ddefnyddio blychau nythu artiffisial. Sicrhau bod unrhyw waith a wneir i ddatblygu ystâd y Brifysgol yn sicrhau enillion net o ran bioamrywiaeth.

3) Gwella Bioamrywiaeth y Campws

Nododd iteriad cyntaf y CGB nifer fawr o gamau gweithredu i wella a hyrwyddo bioamrywiaeth yn y Brifysgol (pob un ohonynt ar Gampws Parc Singleton). Nodir isod y cyflawniadau allweddol:

- Sefydlu Gweithgor Bioamrywiaeth trawsadrannol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Biowyddorau, Ystadau (Tiroedd, Prosiectau, Cynnal a Chadw a Chynaliadwyedd), Preswylfeydd ac Undeb y Myfyrwyr, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tymor.
- Sefydlu Llwybr Natur ar y Campws.
- Sefydlu cychod gwenyn ar y campws.
- Adeiladu "Oracle", sy'n ystafell ddsbarth awyr agored effaith isel, yn y Gerddi Botaneg.
- Mapio a rheoli rhywogaethau goresgynnol.
- Newidiadau i gyfundrefnau torri gwaer mewn ardaloedd o laswelltir sy'n cynnwys llawer iawn o rywogaethau.
- Cydnabod pwysigrwydd coed sy'n pydru ac ardaloedd garw, heb eu trin.
- Defnyddio ysglodion pren 'cartref' fel taenfa i leihau'r angen am chwynladdwyr.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o dechnegau garddio bywyd gwyllt a defnyddio rhywogaethau brodorol.
- Codi blychau adar, ystlumod a thrychfilod.
- Llunio rhestrau o rywogaethau a nodi ardaloedd ar gyfer gwaith yn y dyfodol.
- Sefydlu teithiau cerdded tywys rheolaidd i staff a myfyrwyr.
- Newidiadau i'r dull o ymdrin â rhywogaethau sy'n bla.

Mae Campws Parc Singleton yn amgylchedd cyfoethog iawn, ac eto mae llawer o gyfleoedd i wella o hyd. Ardaloedd mawr o laswelltir amwynder a geir yn bennaf mewn llawer o'r manau agored - tra bod rhai o'r rhain, o reidrydd, yn esthetig ac i'w defnyddio at ddibenion hamdden anffurfiol, mae cyfleoedd i ddatblygu rhai o'r rhain fel dolydd blodeuog a/neu ardaloedd o wlyptir. Mae rhywogaethau goresgynnol i'w gweld o hyd ar y campws a dylid cael gwared â hwy / eu rheoli a phlannu rhywogaethau brodorol yn eu lle. Mae llawer o fylchau nythu adar ac ystlumod mewn cyflwr gwael a dylid gosod rhai newydd yn eu lle a dylid nodi cyfleoedd i ddarparu rhagor o gyfleoedd nythu i rywogaethau a restrir yn A7. Dylid ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu gwerth adeiladau o safbwynt bywyd gwyllt a mabwysiadu gweithdrefnau cynaliadwy ar gyfer rheoli rhywogaethau sy'n bla. Dylid llunio map cynefinoedd Cam I llawn o'r campws, sy'n nodi cynefinoedd bioamrywiaeth, ardaloedd a nodweddion allweddol, gan gynnwys pob coeden hynafol a blwch nythu; y map hwn wedyn fydd y brif ddogfen gyfeirio wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid a gwneud gwaith dehongli mwy cyffredinol. Dylid rheoli gwaith datblygu ar y campws yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff bioamrywiaeth ei wella'n gyffredinol.

Mae Campws y Bae, ar y llaw arall, yn gymharol dlawd o safbwynt cadwraeth, ac ar hyn o bryd yr ardaloedd allweddol yw'r twyni tywod a'r gwastadeddau tywod a llaid i'r de a'r glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau i'r gogledd. Mae rheoli a gwarchod y cynefinoedd hyn yn briodol yn rhan allweddol o'r CGB hwn, tra bod gweddill y campws yn cynnig cyfle gwirioneddol i wella bioamrywiaeth. Mae'r lleoliad arfordirol agored yn gosod cyfyngiadau naturiol ar y planhigion y gellir disgwyl iddynt ffynnu, ac mae'n rhaid i unrhyw waith a wneir yn y Bae gael ei gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau nad amherir ar nodweddion y SODdGA (e.e. drwy blannu rhywogaethau a allai ymledu).

Wedi dweud hynny, mae presenoldeb y SODdGA wrth ochr y campws yn dangos bod amrywiaeth eang a deniadol iawn o blanhigion lleol (sy'n cynnal amrywiaeth eang iawn o infertebratau) yn bosibilrwydd gwirioneddol. Yn y byrdymor, mae'r gwaith o dirlunio'r campws yn ddarostyngedig i'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, gyda chynllun tirlunio a rhestr o blanhigion a gymeradwywyd, ac erys problemau sy'n gysylltiedig â'r gwaith plannu y mae angen eu datrys cyn y gellir gwneud unrhyw waith i gynyddu gwerth y campws o safbwynt bywyd gwyllt. Fel gyda Singleton, dylid ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu gwerth adeiladau o safbwynt bywyd gwyllt a mabwysiadu gweithdrefnau cynaliadwy ar gyfer rheoli rhywogaethau sy'n bla. Dylai camau yn natblygiad y campws yn y dyfodol ymgorffori arfer gorau ar gyfer bioamrywiaeth fel y norm.

Amcanion y CGB:

- 1.1 Sicrhau y caiff materion bioamrywiaeth ar y campws eu rheoli, eu monitro a'u cofnodi gan nifer o randdeiliaid mewn ffordd strwythuredig
- 2.1 Rhoi systemau rheoli data a gwybodaeth effeithlon a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael
- 3.1 Gwella'r modd y rheolir ein campwsau er budd bywyd gwyllt
- 3.2 Creu ardaloedd newydd o gynefin bywyd gwyllt gwerthfawr lle y bo'n briodol
- 3.3 Sicrhau bod gwaith a wneir i gynnal a chadw ystad y Brifysgol a'i datblygu yn gwella bioamrywiaeth yn gyffredinol
- 4.1 Sicrhau bod pob rhanddeiliad perthnasol yn cael hyfforddiant i'w alluogi i chwarae ei ran wrth reoli bioamrywiaeth ar y campws
- 4.2 Cynyddu cyfleoedd addysgol, codi ymwybyddiaeth o'r rôl y mae ein campws yn ei chwarae wrth gynnal bywyd gwyllt a hyrwyddo gwerthfawrogiad o fanteision bioamrywiaeth a manau gwyrdd o ran iechyd a lles



4. Cynllun Gweithredu

Enwau cyswllt allweddol:

Swyddog Bioamrywiaeth – Ben Sampson

Cynnal a Chadw Tiroedd – Paul Edwards

Biowyddorau – Dan Forman, Penny Neyland a Wendy Harris

Ystadau, Cynnal a Chadw – Kevin McKeown

Ystadau, Prosiectau – Fiona Nixon

Ystadau, Cynaliadwyedd – Heidi Smith

1. Rheoli a chofnodi					
Amcan 1: Sicrhau y caiff materion bioamrywiaeth ar y campws eu rheoli, eu monitro a'u cofnodi gan nifer o randdeiliaid mewn ffordd strwythuredig.					
Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Campws	Dyddiad targed	Cynnydd	Prif gyswllt
1.1	Cyhoeddi'r CGB ar Wefan Prifysgol Abertawe	dd/g	01/08/2016		Swyddog Bioamrywiaeth
1.2	Cynnal cyfarfod o'r Gweithgor Bioamrywiaeth bob tymor	dd/g	Bob tymor	Yn mynd rhagddo	Swyddog Bioamrywiaeth
1.3	Llunio cofnodion o gyfarfodydd y Gweithgor Bioamrywiaeth - gan gynnwys targedau ar gyfer y tymor nesaf ac adolygu'r cynnydd a wnaed o ran y camau gweithredu blaenorol	dd/g	O fewn wythnos i'r cyfarfod	Yn mynd rhagddo	Swyddog Bioamrywiaeth
1.4	Llunio cynllun gweithredu blynyddol, sy'n nodi pob prosiect bioamrywiaeth a gynhelir yn y flwyddyn academaidd nesaf - rheoli cynefinoedd a rhywogaethau, arolygu a dehongli	dd/g	Bob blwyddyn - mis Awst		Swyddog Bioamrywiaeth (gyda mewnbwn gan y Gweithgor Bioamrywiaeth)
1.5	Cynnal adolygiad blynyddol o'r CGB, gan ddiweddarau'r cynllun gweithredu yn ôl yr angen a chyflwyno adroddiad ar y broses o'i roi ar waith a statws bioamrywiaeth	dd/g	Bob blwyddyn - mis Medi		Swyddog Bioamrywiaeth
1.6	Cynnal adolygiad llawn o'r CGB bob 4 blynedd	dd/g	01/08/2020		Swyddog Bioamrywiaeth

2. Arolygu, monitro a rheoli data					
Amcan 1: Rhoi systemau rheoli data a gwybodaeth effeithlon a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael.					
Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Campws	Dyddiad targed	Cynnydd	Prif gyswllt
2.1	Creu hwb ar gyfer cofnodion bioamrywiaeth ar Sharepoint	dd/g		Wedi'i gyflawni	Swyddog Bioamrywiaeth
2.2	Mewnbynnu'r holl setiau data i'r hwb cofnodion	dd/g	31/10/2016		Biowyddorau
2.3	Cynnal arolwg cam 1 o'r ddau gampws (gan gynnwys mapio rhywogaethau goresgynnol, coed hynafol a rhywogaethau allweddol)	y ddau	31/07/2017		Swyddog Bioamrywiaeth / Biowyddorau
2.4	Mapio a chofnodi cyflwr pob blwch nythu ar y campws	Singleton	31/12/2016		Swyddog Bioamrywiaeth / Biowyddorau
2.5	Diweddarau'r rhestrau o rywogaethau drwy gynnwys gwybodaeth am eu statws (lle y bo'n hysbys)	Singleton	31/12/2016		Biowyddorau
2.6	Llunio rhestrau o rywogaethau ar gyfer Campws y Bae	Y Bae	2020		Biowyddorau
2.7	Nodi bylchau mewn gwybodaeth ar gyfer arolygon yn y dyfodol (gan gynnwys adolygu rhestrau o grwpiau "hysbys")	y ddau	31/12/2016		Biowyddorau
2.8	Llunio rhestr darged flynyddol ar gyfer blaenoriaethau o ran gwaith arolygu i fyfyrwyr ac interniaid y biowyddorau	y ddau	Bob blwyddyn - mis Awst		Swyddog Bioamrywiaeth / Biowyddorau
2.9	Llunio cynllun monitro'r campysau â methodoleg safonol ar gyfer rhywogaethau a / neu gynefinoedd allweddol	y ddau	31/08/2017		Swyddog Bioamrywiaeth / Biowyddorau
2.10	Cadw cofnod o'r holl waith arolygu a monitro sy'n mynd rhagddo ar y campysau a'i gynnwys fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Gweithgor Bioamrywiaeth	y ddau	Yn mynd rhagddo		Swyddog Bioamrywiaeth
2.11	Datblygu mynegai bioamrywiaeth i fod yn sail i'r gwaith o adrodd ar statws bioamrywiaeth y campysau	y ddau	Mis Ebrill 2017		Swyddog Bioamrywiaeth

3. Rheoli cynefinoedd a rhywogaethau					
Amcan 1: Gwella'r modd y rheolir ein campysau er budd bywyd gwylt					
Amcan 2: Creu ardaloedd newydd o gynefin bywyd gwylt gwerthfawr lle y bo'n briodol					
Amcan 3: Sicrhau bod gwaith a wneir i gynnal a chadw ystad y Brifysgol a'i datblygu yn gwella bioamrywiaeth yn gyffredinol					
Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Campws	Dyddiad targed	Cynnydd	Prif gyswllt
3.1	Bwrw golwg dros brosesau rheoli glaswelltiroedd a'u hymgorffori mewn gweithdrefnau rheoli tiroedd er budd bioamrywiaeth	y ddau	31/12/2016		Tiroedd
3.2	Bwrw golwg dros brosesau rheoli pyllau a'u hymgorffori mewn gweithdrefnau rheoli tiroedd er budd bioamrywiaeth	Singleton	31/12/2016		Tiroedd
3.3	Defnyddio rhywogaethau brodorol mewn gwaith plannu oni nodir fel arall	y ddau	Yn mynd rhagddo		Tiroedd
3.4	Nodi ardaloedd y dylid eu gadael yn "anniben" a heb eu trin ar y ddau gampws	y ddau	31/12/2016		Tiroedd / Swyddog Bioamrywiaeth
3.5	Nodi ardaloedd ar gyfer creu dolydd blodau gwylt	y ddau	31/12/2016		Tiroedd / Swyddog Bioamrywiaeth / y Biowyddorau
3.6	Nodi ardaloedd ar gyfer creu pyllau newydd	y ddau	31/12/2016		Tiroedd / Swyddog Bioamrywiaeth / y Biowyddorau
3.7	Datblygu rhaglen flynyddol ar gyfer atgyweirio, adnewyddu a chodi blychau nythu ychwanegol	y ddau	31/12/2016		Swyddog Bioamrywiaeth
3.8	Creu Gardd Coetir Hynafol gyda choed wedi'u tanblannu yn y Gerddi Botaneg â dangosyddion coetir hynafol brodorol	Singleton	31/12/2017		Tiroedd
3.9	Plannu rhywogaethau planhigion brodorol sy'n llawn neithdar i ddenu peillwyr	y ddau	Yn mynd rhagddo		Tiroedd
3.10	Creu cynefin newydd - dâl blodau gwylt	y ddau	31/08/2017		Tiroedd
3.11	Creu cynefin newydd - pyllau / ardaloedd o wlyptir	y ddau	31/08/2018		Tiroedd

3.12	Dileu / rheoli'r holl rywogaethau planhigion goresgynol anffroddol a phlannu rhywogaethau brodorol yn eu lle fel y bo'n briodol	y ddau	Yn mynd rhagddo		Tiroedd
3.13	Ymgorffori gwella bioamrywiaeth ym mhob prosiect adeiladu newydd - er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r Swyddog Bioamrywiaeth ar gam cynnar	y ddau	Yn mynd rhagddo		Ystadau - Prosiectau
3.14	Sicrhau bod unrhyw waith cynnal a chadw adeiladau sy'n mynd rhagddo yn ystyried ac yn gwarchod bioamrywiaeth - dylid ymgynghori â'r Swyddog Bioamrywiaeth os oes unrhyw amheuaeth	y ddau	Yn mynd rhagddo		Ystadau - Cynnal a Chadw

4. Codi ymwybyddiaeth ac addysg

Amcan 1: Sicrhau bod pob rhanddeiliad perthnasol yn cael hyfforddiant i'w alluogi i chwarae ei ran wrth reoli bioamrywiaeth ar y campws

Amcan 2: Cynyddu cyfleoedd addysgol, codi ymwybyddiaeth o'r rôl y mae ein campws yn ei chwarae wrth gynnal bywyd gwylt a hyrwyddo gwerthfawrogiad o fanteision bioamrywiaeth a manau gwyrdd o ran iechyd a lles

Rhif y cam gweithredu	Cam gweithredu	Campws	Dyddiad targed	Cynydd	Prif gyswllt
4.1	Hysbysu'r holl staff rheoli tiroedd am amcanion y CGB er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth	y ddau	Bob blwyddyn - mis Ionawr		Swyddog Bioamrywiaeth
4.2	Nodi unrhyw hyfforddiant sy'n ymwneud â bioamrywiaeth y mae angen ei ddarparu ar gyfer aelodau eraill o staff fel sy'n ofynnol ar gyfer y System Rheoli Amgylcheddol	y ddau	Bob blwyddyn - mis Gorffennaf		Swyddog Bioamrywiaeth / Cynaliadwyedd
4.3	Datblygu gwybodaeth am fywyd gwylt ar gyfer y rhaglen sefydlu staff a myfyrwyr	y ddau	31/08/2016		Swyddog Bioamrywiaeth
4.4	Datblygu deunydd dehongli bywyd gwylt ar gyfer Campws y Bae	Y Bae	31/07/2018		Swyddog Bioamrywiaeth
4.5	Bwrw golwg dros fyrddau dehongli'r Llwybr Natur a gosod byrddau newydd yn lle'r rhai presennol (os oes angen)	Singleton	31/07/2018		Swyddog Bioamrywiaeth
4.6	Datblygu a chyflawni rhaglen o deithiau cerdded tywys a digwyddiadau dehongli eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth y Brifysgol ymhlith staff a myfyrwyr	y ddau	Yn mynd rhagddo		Swyddog Bioamrywiaeth / Biowyddorau

4.7	Ysgrifennu erthyglau i hysbysu'r wasg leol a chyfryngau eraill am fentrau bioamrywiaeth/effaith isel Prifysgol Abertawe	dd/g	Bob tymor		Swyddog Bioamrywiaeth / Swyddog y Wasg / Datblygu Busnes
4.8	Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon allweddol am fioamrywiaeth - anelu at o leiaf un y mis	dd/g	Yn mynd rhagddo		Swyddog Bioamrywiaeth / Cynaliadwyedd
4.9	Hyrwyddo'r defnydd o fannau gwyrdd y campysau er budd iechyd a lles staff a myfyrwyr, gan gefnogi'r rhaglen Safon Iechyd Corfforaethol a Chynaliadwyedd a Lles	y ddau	Yn mynd rhagddo		Cynaliadwyedd
4.10	Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i staff a myfyrwyr	y ddau	Yn mynd rhagddo		Swyddog Bioamrywiaeth